



Clerc/Clerk: Anwen Jones

Cyfeiriad/Address: 10 Gorffwysfa, Dwyran, Ynys Mon, LL61 6YJ

Ffon/Tel: 07375781090

E-bost/E-mail: clerc@valley-community-council.wales

Gwefan: www.cyngor-cymuned-fali.cymru

Website: www.valley-community-council.wales

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Parciau
7.00pm 07/10/2026
yn y Pafiliwn, Parc Mwd

Minutes of the Parks Committee
7.00pm 07/10/2026
at the Pavilion, Parc Mwd

Presennol

Cynghorwyr:

E Jones (Cadeirydd)

C Z Tattersall

N Tuck

Present

Councillors:

E Jones (Chair)

C Z Tattersall

N Tuck

Hefyd yn bresennol

A Jones Clerc

Also present

A Jones Clerk

1. Croeso

Croesawyd bawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

Cafwyd ganiatad gan pawb yn bresennol i recordio'r cyfarfod er mwyn cynorthwyo gyda pharatoi'r cofnodion.

Welcome

Everyone was welcomed to the meeting by the Chair.

Permission was granted by all present to record the meeting in order to assist with the preparation of the minutes.

2. Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr C Carter ac M Swaine Williams.

Apologies

Apologies were received by Councillors C Carter and M Swaine Williams.

3. Derbyn datganiadau o fuddiant personol a rhagfarnol

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol na rhagfarnol.

To receive Declaration of Personal and/or Prejudicial Interest

No personal or prejudicial interests were declared.

4. Caniatáu i'r cyhoedd siarad ar unrhyw eitem ar yr agenda neu ofyn cwestiynau (3 munud)

Dim aelod o'r cyhoedd yn bresennol

To allow the public to speak on any items on the agenda or ask questions (3 minutes)

No members of the public were present.

5. Camau gweithredu a materion yn codi o'r cofnodion blaenorol dyddiedig 10 Mehefin 2026 (fel y'u cymeradwywyd gan y Cyngor Llawn ar 16 Mehefin 2026 - 47/2627)

Cais Pecyn Bioamrywiaeth

Hysbysir yr aelodau fod Un Llais Cymru wedi cadarnhau bod cais y Cyngor i'r Gronfa Bioamrywiaeth wedi bod yn llwyddiannus. Darperir rhagor o wybodaeth am y prosiect a'r camau nesaf maes o law.

Actions and matters arising from previous Committee Minutes dated 10 June 2026 (as approved by Full Council on 16 June 2026 - 47/2627)

Biodiversity Pack Application

Members are advised that One Voice Wales has confirmed that the Council's application to the Biodiversity Fund has been successful. Further information regarding the project and next steps will be provided in due course.

6. **Adolygiad Cyllideb Parciau ar gyfer 2026/27**

Adolygodd yr aelodau adroddiad monitro'r gyllideb ar gyfer Chwarter 2 a nodwyd y sefyllfa ariannol bresennol, gan gynnwys taliadau torri gwair o £1,333 sy'n dal i fod yn weddill. Cafodd yr aelodau gyfle i ofyn cwestiynau a nodwyd bod y gyllideb yn parhau mewn sefyllfa iach.

Nododd yr aelodau hefyd fod yr incwm a dderbyniwyd hyd yma wedi cynyddu o gymharu â'r un cyfnod y llynedd. Cynghorodd y Clerc fod yr incwm a gynhyrchir yn cyfrannu tuag at gostau Parc Mwd, ond nad yw'n ddigon i dalu costau rhedeg y parc yn llawn.

7. **Diweddariad Prosiectau:**

i. **Cronfa Balchder yn Eich Cymuned**

Rhoddodd y Clerc ddiweddariad ar brosiectau Cronfa Balchder yn y Lle a chynghorodd fod yr holl eitemau a gymeradwywyd bellach wedi'u harchebu, gyda gwaith adnewyddu'r cloc a gosod y twmpathau arafu wedi'u cwblhau. Trafododd yr aelodau leoliad arfaethedig y bwrdd gwybodaeth newydd.

Dywedodd y Clerc y gallai balans fod yn weddill o'r dyraniad grant ac awgrymodd y gellid defnyddio'r swm hwn tuag at arwyddion ychwanegol ar gyfer y twmpathau arafu. Trafododd yr aelodau hefyd gyfleoedd i hyrwyddo'r prosiectau a gwblhawyd o fewn y gymuned, gan gynnwys cydweithio â'r ysgol i dynnu sylw at yr offer chwarae newydd ar Lon Spencer yn dilyn yr ymgynghoriad diweddar.

ii. **Adeilad y Pafiliwn**

Rhoddodd Cadeirydd y Pwyllgor Parciau ddiweddariad ar Brosiect Adeilad y Pafiliwn. Nododd yr aelodau fod trafodaethau wedi cychwyn gyda'r Clwb Pêl-droed a sefydliadau allanol ynghylch cyfleoedd ariannu posibl a gofynion y prosiect.

Pwysleisiodd yr aelodau bwysigrwydd ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r gymuned wrth i'r prosiect ddatblygu. Dywedodd y Clerc y byddai rhagor o ymchwil yn cael ei chynnal ynghylch llywodraethu, ymgynghori a gofynion y prosiect cyn cyflwyno unrhyw gynnig i sefydlu gweithgor i aelodau ei ystyried.

Parks Budget Review for 2026/27

Members reviewed the Quarter 2 budget monitoring report and noted the current financial position, including outstanding grass-cutting payments of £1,333. Members were given the opportunity to ask questions and noted that the budget remains in a healthy position.

Members also noted that income received to date has increased compared with the same period last year. The Clerk advised that income generated contributes towards, but does not fully meet, the ongoing costs of Parc Mwd.

Project Updates:

i. **Pride in Place Fund**

The Clerk provided an update on the Pride in Place Fund projects and advised that all approved items had now been ordered, with the clock refurbishment and speed ramp installation completed. Members discussed the proposed location of the new information board.

The Clerk advised that a balance may remain from the grant allocation and suggested that this could be used towards additional speed ramp signage. Members also discussed opportunities to promote the completed projects within the community, including working with the school to highlight the new play equipment at Lon Spencer following the recent consultation exercise.

ii. **Pavilion Building**

The Chair of the Parks Committee provided an update on the Pavilion Building Project. Members noted that discussions had commenced with the Football Club and external organisations regarding potential funding opportunities and project requirements.

Members emphasised the importance of stakeholder engagement and community involvement as the project develops. The Clerk advised that further research would be undertaken regarding governance, consultation and project requirements before any proposal to establish a working group is brought forward for members' consideration.

8. Diweddariad CPD Iau Y Fali

Rhoddodd Cadeirydd y Pwyllgor Parciau ddiweddariad ynghylch Clwb Pêl-droed y Fali. Nododd yr aelodau fod y tymor newydd wedi dechrau a bod y Clwb wedi gwneud cais i gyfarfod â'r Cyngor cyn diwedd y flwyddyn.

9. Diweddariad Grŵp Cymunedol Y Fali

Nododd yr aelodau fod eitemau sy'n perthyn i Grŵp Cymunedol y Fali yn parhau yn Adeilad y Pafiliwn. Nodwyd fod caniatâd wedi'i roi'n flaenorol i storio'r eitemau yn Adeilad y Pafiliwn yn ystod cyfnod Covid.

Argymhellodd yr aelodau y dylid anfon llythyr pellach yn gofyn am gadarnhad ysgrifenedig os yw'r Grŵp yn dymuno i'r Cyngor drefnu gwaredu'r eitemau sy'n weddill. Hefyd ceisir arweiniad ynghylch eitemau sy'n cael eu storio ar eiddo'r Cyngor gan drydydd partïon.

Argymhelliad 1: Ysgrifennu at Grŵp Cymunedol y Fali yn nodi bod eitemau yn parhau yn Adeilad y Pafiliwn ac yn gofyn am gadarnhad ysgrifenedig ynghylch a ydynt yn dymuno cadw'r eitemau neu i'r Cyngor drefnu eu gwaredu ar eu rhan.

10. Diweddariad Maes Chwarae Lon Spencer

Nodwyd bod pob mater yn ymwneud â'r maes chwarae wedi cael sylw o dan eitemau eraill ar yr agenda ac ni chodwyd unrhyw faterion pellach.

11. Diweddariad Parc Mwd

Derbyniodd yr aelodau ddiweddariad gan Gadeirydd y Pwyllgor Parciau:

- Nodwyd na chafwyd unrhyw ddiweddariad pellach ynghylch yr eitemau a gafodd eu gadael yn ddiweddar fel sbwriel anghyfreithlon.
- Mynegodd yr aelodau eu gwerthfawrogiad i wirfoddolwr lleol am ei gymorth parhaus gyda chasglu sbwriel ac adrodd materion o fewn y parc. Awgrymwyd y dylai'r Cyngor anfon llythyr o ddiolch.
- Nododd yr aelodau fod cost amcangyfrifedig tynnu'r graffiti tua £330 a chytunwyd y dylid ystyried unrhyw waith ochr yn ochr â thrafodaethau ehangach ynghylch atgyweiriadau, cynnal a chadw a datblygiad adeilad y Pafiliwn yn y dyfodol.
- Nododd yr aelodau fod cerbyd wedi'i adael yn y maes parcio am sawl diwrnod.

Valley Juniors FC Update

The Chair of the Parks Committee provided an update regarding Valley Football Club. Members noted that the new season had commenced and that the Club had requested a meeting with the Council before the end of the year.

Valley Community Group Update

Members noted that items belonging to the Valley Community Group remain in the Pavilion building. It was noted that permission had previously been granted for storage within the Pavilion building during the Covid period.

Members recommended that a further letter be issued requesting written confirmation should the Group wish the Council to arrange disposal of the remaining items. Guidance would also be sought regarding items stored on Council property by third parties.

Recommendation 1: Write to the Valley Community Group advising that items remain within the Pavilion building and requesting written confirmation as to whether they wish to retain the items or for the Council to arrange disposal on their behalf.

Play Area Lon Spencer Update

It was noted that all matters relating to the play area had been addressed under other agenda items and no further issues were raised.

Parc Mwd Update

Members received an update from the Chair of the Parks Committee:

- Members noted that no further update had been received regarding the recent fly-tipped items.
- Members expressed their appreciation to a local volunteer for their ongoing assistance with litter-picking and reporting issues within the park. It was suggested that the Council send a letter of thanks.
- Members noted the estimated graffiti removal cost of approximately £330 and agreed that any works should be considered alongside wider discussions regarding repairs, maintenance and the future development of the Pavilion building.
- Members noted that a vehicle had been left in the car park for several days.

- Trafododd yr aelodau bryderon ynghylch y cynnydd mewn baw cŵn yn y parc. Adroddodd y Clerc fod cysylltiad wedi'i wneud â'r Warden Cŵn, a chadarnhawyd y byddai arwyddion gorfodi ychwanegol yn cael eu gosod. Atgoffwyd yr aelodau y gellir adrodd pryderon yn uniongyrchol i'r Warden Cŵn. Cytunwyd i geisio manylion cyswllt ar gyfer adrodd digwyddiadau er mwyn eu harddangos ar hysbysfyrddau'r Cyngor ac i osod y peiriant dosbarthu bagiau baw cŵn sbâr ar y postyn pren wrth fynedfa'r llwybr troed coedlog, wrth ymyl bin y Cyngor Sir.

- Members discussed concerns regarding increasing levels of dog fouling within the park. The Clerk reported that the Dog Warden had been contacted and that additional enforcement signage would be installed. Members were reminded that concerns can be reported directly to the Dog Warden. It was agreed to seek contact details for reporting incidents for display on Council noticeboards and to install the spare dog waste bag dispenser on the wooden post at the entrance to the woodland footpath, adjacent to the County Council bin.

12. Adolygiad o'r Cynllun Cynnal a Chadw

Adolygodd yr aelodau'r Atodlen Atgyweiriadau a Chynnal a Chadw.

Nodwyd bod gwaith atgyweirio i'r rhan o'r offer chwarae yn Lon Spencer wedi'i gwblhau a bod dyfynbris wedi'i dderbyn ar gyfer adleoli arwydd mynediad Parc Mwd. Nododd yr aelodau ymhellach fod angen gwneud gwaith atgyweirio i'r wal ffin ger y Pafiliwn o hyd ac y ceir dyfynbrisiau ychwanegol yn unol â Rheoliadau Ariannol y Cyngor cyn parhau â'r gwaith.

Trafododd yr aelodau'r trefniadau presennol ar gyfer gwiriadau iechyd a diogelwch a chydymffurfiaeth yn y Pafiliwn. Nodwyd bod archwiliadau diogelwch tân wythnosol a gwiriadau offer chwarae yn cael eu cynnal a'u cofnodi ar hyn o bryd gan y Cynghorydd Eryl Jones. Cydnabu'r aelodau fod y trefniadau hyn yn sicrhau monitro a chadw cofnodion yn rheolaidd, a nodwyd bod y trefniadau presennol wedi gwella'r trefniadau monitro a chadw cofnodion.

Trafodwyd gweithrediad y systemau larwm tân a larwm tresmaswyr, ynghyd â'r gweithdrefnau ar gyfer ymateb i larwm yn cael ei actifadu. Nododd yr aelodau fod y ddwy system yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd, ond bod angen eglurhad pellach ynghylch trefniadau cyswllt brys, deiliaid allwedd i chyfrifoldebau pe bai larwm yn cael ei actifadu y tu allan i oriau gweithredu arferol.

Nodwyd nad oedd y Clerc wedi derbyn hyfforddiant iechyd a diogelwch ffurfiol nac ymsefydlu ar gyfrifoldebau iechyd a diogelwch y Cyngor. Trafododd yr aelodau'r angen am hyfforddiant priodol i swyddogion ac aelodau er mwyn cefnogi

Repairs and Maintenance Plan Review

Members reviewed the Repairs and Maintenance Schedule.

It was noted that repairs to a section of play equipment at Lon Spencer had been completed and that a quotation had been received for the relocation of the Parc Mwd entrance sign. Members further noted that repairs to the boundary wall adjacent to the Pavilion remain necessary and that additional quotations would be obtained in accordance with the Council's Financial Regulations before works proceed.

Members discussed current arrangements for health and safety checks and compliance at the Pavilion. It was noted that weekly fire safety inspections and play equipment checks are currently undertaken and recorded by Cllr Eryl Jones. Members noted that the current arrangements have strengthened monitoring and record keeping.

The operation of the fire and intruder alarm systems was discussed, together with procedures for responding to alarm activations. Members noted that both systems are serviced regularly but that further clarification was required regarding emergency contact arrangements, key holders and responsibilities should an alarm activate outside normal operating hours.

It was noted that the Clerk had not received formal health and safety training or an induction covering all aspects of the Council's health and safety responsibilities. Members discussed the need for appropriate training for both officers

cydymffurfiaeth â dyletswyddau'r Cyngor a rhoi eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau.

Trafododd yr aelodau ddyraniad cyfrifoldebau iechyd a diogelwch a chydabuwyd mai'r Cyngor sydd â'r cyfrifoldeb terfynol am iechyd a diogelwch. Rhoddwyd ystyriaeth i sefydlu trefniadau goruchwyllo clir, gan gynnwys archwiliadau wedi'u dogfennu a gweithdrefnau adrodd. Awgrymwyd y dylai'r archwiliadau gweithredol wythnosol barhau i gael eu cynnal gan y Cyngorydd Eryl Jones, gyda monitro ychwanegol gan y Clerc.

Trafododd yr aelodau hefyd y posibilrwydd o benodi deiliaid allweddol ychwanegol ar gyfer y Pafiliwn a nodwyd cynnig y Cyngorydd C Z Tattersall i gynorthwyo. Bydd y posibilrwydd o benodi deiliaid allweddol awdurdodedig ychwanegol sy'n byw yn agosach at leoliad y Pafiliwn yn cael ei ystyried ymhellach.

Cytunodd yr aelodau y dylid hysbysu'r Cyngor Llawn bod archwiliadau diogelwch tân wythnosol a gwiriadau offer chwarae yn cael eu cynnal a'u cofnodi ar hyn o bryd gan y Cyngorydd Eryl Jones. Trafododd yr aelodau hefyd yr angen i archwilio cyfleoedd hyfforddiant iechyd a diogelwch pellach i swyddogion ac aelodau er mwyn cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni ei gyfrifoldebau iechyd a diogelwch.

Gweithred: Hysbysu'r Cyngor Llawn fod archwiliadau diogelwch tân wythnosol a gwiriadau offer chwarae yn cael eu cynnal a'u cofnodi gan y Cyngorydd Eryl Jones.

and members to support compliance with the Council's duties and to provide clarity regarding roles and responsibilities.

Members discussed the allocation of health and safety responsibilities and recognised that responsibility for health and safety ultimately rests with the Council. Consideration was given to establishing clear oversight arrangements, including documented inspections and reporting procedures. It was suggested that weekly operational inspections continue to be undertaken by Cllr Eryl Jones, with additional monitoring by the Clerc.

Members also discussed additional Pavilion key holders and noted the offer from Cllr C Z Tattersall to assist. The possibility of appointing additional authorised key holders closer to the Pavilion location is to be considered further.

Members agreed that Full Council should be informed that weekly fire safety and play equipment inspections are currently undertaken and recorded by Cllr Eryl Jones. Members also discussed the need to explore further health and safety training opportunities for officers and members to assist the Council in meeting its health and safety responsibilities.

Action: Inform Full Council that weekly fire safety and play equipment inspections are currently undertaken and recorded by Cllr Eryl Jones.

13. Cytundeb Torri Gwair a Cynnal Tiroedd

Nododd yr aelodau fod y Contract Cynnal a Chadw Tiroedd presennol yn dod i ben ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Roedd y fanyleb gyfredol wedi'i rhannu gyda'r aelodau cyn y cyfarfod er mwyn ei hystyried. Cytunwyd i gynnal cyfarfod yn ystod gwyliau hanner tymor mis Hydref i drafod ac adolygu'r fanyleb gyfredol cyn dechrau'r broses dendro.

Trafodwyd hefyd y posibilrwydd o geisio cymorth gan sefydliadau gwirfoddol gyda gwaith clirio chwyn.

Grass Cutting and Grounds Maintenance Contract

Members noted that the current Grounds Maintenance Contract expires at the end of the financial year. The current specification had been circulated prior to the meeting for consideration. It was agreed to hold a meeting during the October half-term period to discuss and review the current specification before commencing the tender process.

The possibility of seeking assistance from voluntary organisations with weed-clearing work was also discussed.

14. Adroddiadau ROSPA 2026

Adolygodd yr aelodau adroddiadau archwilio ROSPA 2026 a ddosbarthwyd cyn y cyfarfod. Rhoddodd Cadeirydd y Pwyllgor Parciau drosolwg o'r canfyddiadau.

Nododd yr aelodau fod yr archwiliadau wedi nodi 4 arsylwad risg canolig a 24 arsylwad risg isel yn Lon Spencer; 4 arsylwad risg canolig a 25 arsylwad risg isel yn Ardal Chwarae Parc Mwd; a 3 arsylwad risg canolig a 53 arsylwad risg isel yng Nghae Chwarae Parc Mwd a'r ardaloedd cyfagos. Ni nodwyd unrhyw faterion risg uchel.

Nododd yr aelodau fod nifer o argymhellion archwiliadau'r flwyddyn flaenorol wedi'u cwblhau a bod yr arolygydd wedi cydnabod y gwelliannau a wnaed yn ystod ymweliad safle a thrafodaeth gyda'r Cynghorydd Eryl Jones.

15. Bioamrywiaeth

Nododd yr aelodau y bydd Jesse o Cadwch Gymru'n Daclus yn mynychu Parc Mwd ddydd Gwener gyda gwirfoddolwyr i osod tyweirch blodau gwyllt. Nododd yr aelodau hefyd y bydd Jenny Crouch o Cyfoeth Naturiol Cymru yn mynychu cyfarfod y Cyngor Llawn ym mis Hydref i roi cyflwyniad ar Goedwig Genedlaethol Cymru.

16. Hyfforddiant Legionella

Trafododd yr aelodau Hyfforddiant Legionella a chydnabwyd bod angen hyfforddiant i gefnogi cyfrifoldebau'r Cyngor mewn perthynas â hylendid dŵr a rheoli Legionella. Ystyriwyd manylion cwrs hyfforddi ar-lein, ar gost o £17.50 y person ynghyd â TAW. Cynigiwyd y dylai'r Clerc, y Cynghorydd Eryl Jones a'r Cynghorydd Caroline Z Tattersall fynychu'r hyfforddiant.

Argymhelliad 2: argymell i'r Cyngor Llawn fod y Clerc, y Cynghorydd Eryl Jones a'r Cynghorydd Caroline Z Tattersall yn cwblhau'r Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Legionella ar gost o £17.50 y person ynghyd â TAW.

17. Gwariant arfaethedig ar gyfer 2027/28

Trafododd yr aelodau ofynion cyllideb arfaethedig 2027/28 a chawsant gyfle i ystyried unrhyw ofynion gwariant disgwylidiedig ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

2026 ROSPA Reports

Members reviewed the 2026 ROSPA inspection reports circulated prior to the meeting. The Chair of the Parks Committee provided an overview of the findings.

Members noted that the inspections identified 4 medium-risk and 24 low-risk observations at Lon Spencer; 4 medium-risk and 25 low-risk observations at Parc Mwd Play Area; and 3 medium-risk and 53 low-risk observations at Parc Mwd Playing Field and surrounding areas. No high-risk issues were identified.

Members noted that a number of recommendations from the previous year's inspections had been completed and that the inspector had acknowledged the improvements made during a discussion with Cllr Eryl Jones whilst on site.

Biodiversity

Members noted that Jesse from Keep Wales Tidy will attend Parc Mwd on Friday with volunteers to lay wildflower turf. Members also noted that Jenny Crouch from Natural Resources Wales will attend the October Full Council meeting to give a presentation on the National Forest for Wales.

Legionella Training

Members discussed Legionella Training and recognised that training is required to support the Council's responsibilities in relation to water hygiene and Legionella management. Details of an online training course were considered, at a cost of £17.50 per person plus VAT. It was proposed that the Clerk, Cllr E Jones and Cllr C Z Tattersall attend the training.

Recommendation 2: recommend to Full Council that the Clerk, Cllr E Jones and Cllr C Z Tattersall undertake the Legionella Awareness Training at a cost of £17.50 per person plus VAT.

Proposed expenditure for 2027/28

Members discussed the proposed budget requirements for 2027/28 and were given the opportunity to consider any anticipated expenditure requirements for the next financial year.

Ni nodwyd unrhyw brosiectau penodol nac unrhyw ofynion cyllideb ychwanegol gan y Pwyllgor. Cytunodd yr aelodau y dylid defnyddio'r gyllideb Atgyweiriadau a Chynnal a Chadw bresennol fel sail i gyllideb 2027/28, gan eithrio eitemau prosiect untro, gyda chynnydd o 10% i gyfrif am chwyddiant. Cytunodd yr aelodau hefyd y dylid parhau i geisio cyfleoedd ariannu allanol i gefnogi gwaith yn y dyfodol.

No specific projects or additional budget requirements were identified by the Committee. Members agreed that the current Repairs and Maintenance budget should be used as the basis for the 2027/28 budget, excluding one-off project items, with an allowance of 10% for inflation. Members also agreed that external grant funding opportunities should continue to be explored to support future works.

18. Unrhyw Fater Arall

Cronfeydd Heb eu Gwario wedi'u Clustnodi

Trafododd yr aelodau'r posibilrwydd o glustnodi unrhyw arian Parc Mwd nas defnyddir ar ddiwedd y flwyddyn ar gyfer gwaith atgyweirio a chynnal a chadw yn y dyfodol. Cytunwyd y dylid cyfeirio'r mater at y Pwyllgor Cyllid i'w ystyried.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.01yh

Crynodeb o'r argymhellion i'r Cyngor Llawn

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Cyngor Llawn:

Argymhelliad 1: Bod y Cyngor yn ysgrifennu at Grŵp Cymunedol y Fali yn nodi bod eitemau yn parhau yn Adeilad y Pafiliwn ac yn gofyn am gadarnhad ysgrifenedig ynghylch a ydynt yn dymuno cadw'r eitemau neu i'r Cyngor drefnu eu gwaredu ar eu rhan.

Argymhelliad 2: Argymhell i'r Cyngor Llawn fod y Clerc, y Cyngorydd Eryl Jones a'r Cyngorydd Caroline Z Tattersall yn cwblhau'r Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Legionella ar gost o £17.50 y person ynghyd â TAW.

Any Other Business

Earmarked Unspent Funds

Members discussed the possibility of earmarking any unspent Parc Mwd funds at year end for future repairs and maintenance works. It was agreed that this matter be referred to the Finance Committee for consideration.

The meeting ended at 9.01pm

Summary of recommendations to Full Council

The Committee recommends that Full Council:

Recommendation 1: That the Council write to the Valley Community Group advising that items remain within the Pavilion building and requesting written confirmation as to whether they wish to retain the items or for the Council to arrange disposal on their behalf.

Recommendation 2: Recommend to Full Council that the Clerk, Cllr E Jones and Cllr C Z Tattersall undertake the Legionella Awareness Training at a cost of £17.50 per person plus VAT.